

Canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf

Litani syml gyda gweithgareddau creadigol y gellir eu cynnwys mewn gwasanaeth i ddarparu gweithred fer o goffâd, neu wedi ei ddefnyddio gyda grwpiau plant a phobl ifanc neu wasanaeth ysgol, i gofio 100 mlynedd ers llofnodi'r Cadoediad.

Litani Coffâd

Daw'r ysbrydoliaeth am y litani hon o wehyddu blanced. Yr ystaf yw'r edefyn disymud sy'n rhedeg ar draws hyd y flanced. Yr anwe yw'r edafedd symudol sy'n cael ei wehyddu i mewn ac allan. Rhwch i bawb bedwar darn o edau lliw (30cm) i glymu gyda'i gilydd a gwahoddwch nhw i wneud ychydig o wehyddu â llaw. Gan ddefnyddio eich llaw nad yw'r un cryfaf fel yr ystaf, gwehyddwch yr edau aml-liw dros ac o dan eich bysedd, a gwylwch wrth iddi newid lliw. Nawr dychmygwch Dduw fel yr ystaf a ninnau fel edefion anwe. Mae pob person a gweithred ar draws y byd yn gwneud gwahaniaeth i sut mae'r byd yn edrych a sut y bydd bob amser yn edrych. Adroddwch y litani ganlynol wrth i bobl wneud eu gwehyddu, neu ar y diwedd.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Gwehydda ni i mewn i frethyn hanes, yn ystog ac anwe.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Ni yw'r anwe rwyf wedi ei wehyddu i mewn i'r blynyddoedd a fu.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Gyda thi, heddiw, fe gofiwn yr hanesion a lluniau o ryfel a glywsom ac a welsom.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Gyda thi, cofiwn mai 100 mlynedd yn ôl i heddiw/yr wythnos hon, cafodd heddwch a diwedd y rhyfel byd cyntaf ei wehyddu i mewn i hanes.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Rydym yn drist bod cymaint o bobl wedi eu clwyfo a'u lladd mewn cymaint o ryfeloedd.

Mae pob un wedi gadael eu marc ar hanes.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Rydym yn drist bod ryfeloedd yn digwydd o hyd. Helpa ni i fyw ein bywydau dros heddwch.

Dad, Mab ac Ysbryd Glân, **Y Drindod sy'n ein clymu:**

Yr eiddot ti ydym, a'n heiddo ni wyt ti, y dydd hwn a phob dydd, nawr a hyd byth. Amen.

Y cread a gwrthdaro

Crëwch ludwaith gan ddefnyddio papur newydd (i gysylltu gyda heddiw), paent, papur lliw a cherdyn i gynrychioli harddwch y cread, arswyd rhyfel a marwolaeth, a'r bywyd newydd a dyfodd ohono. Paratowch y cefndir ymlaen llaw a gwahoddwch bobl i ludo darnau o bapur lliw wedi ei rwygo i gynrychioli awyr, pridd, gwaed, glaw a'r haul, yna ychwanegwch babïau cerdyn fel symbolau o fywyd newydd.

Cadw oed

Os nad yw eich gweithred o gofio am 11yb ar 11 Tachwedd, curwch ddwylo neu eich traed yn araf yn hytrach na chynnal dau funud o dawelwch i gofio'r 100 mlynedd. Gall rhywun gadw curiad cyson a chadw cyfrif. Gallant yn raddol godi'r sain a'r cyflymder wrth gyrraedd 100. Neu gallwch ddefnyddio'r gweithgaredd hwn i arwain at ddau funud o dawelwch.